

Cwpan Efe

Daeth noson Cwpan Efe yn noson go bwysig i blant yr Ysgolion Sul ers sawl blwyddyn, ac mae dyddiad y noson wedi ei osod ar gyfer eleni.

Cynhelir y gystadleuaeth bel droed 5 yr ochr hon ar gae Ysgol Gynradd Llanrug nos Iau, Mehefin

Mae'r gystadleuaeth ar gyfer ysgolion Sul cylch Efe, ond mae croeso cynnes i ysgolion Sul o gylch ehangach i gymryd rhan. Plant blynyddoedd ysgol 3, 4, 5 a 6 fydd yn cymryd rhan eleni eto.

Ceir rhagor o fanylion gan Andrew Settattree (07929 916 181).

Cyhoeddiadau

YR OFALAETH

Dydd Mercher, Mai 20: 'Dechreuadau' - y trydydd sesiwn, ym Methlehem Talybont am 2.00 o'r gloch.

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Mai 24: Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Trefor Jones, Caernarfon.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Mai 24: Gwasanaethir am

Y mis nesaf - Deiniolen

Mai 17

10.00 a.m. - Y Gweinidog
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mai 24

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Trefor Jones

Mai 31

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Gwyndaf Jones

10.30 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

REHOBOTH

Dydd Sul, Mai 24: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Mai 24: Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CARMEL

Dydd Llun, Mai 18: Cynhelir y 'Te Bach' am 2.30 o'r gloch. Hwn fydd yr olaf tan fis Medi.

Nos Wener, Mai 22: Cynhelir 'Dwylo Prysur' am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Mai 24: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Mai 22: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.



Y mis nesaf - Llanberis

Mai 17


10.00 a.m. - Y Parchg Huw Pritchard
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Huw Pritchard

Mai 24

10.30 a.m. - Y Gweinidog
Dim Ysgol Sul
5.00 p.m. - Dim Oedfa

Mai 31

10.00 a.m. - Mr Gwilym C Williams
Dim Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr Dewi Jones



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 638: Dydd Sul, 17 Mai, 2015

Colli cyfle

Gŵr o Jamaica oedd Edmund Hyde Hall, awdur y gyfrol *A Description of Caernarvonshire 1809-1811* sydd, fel yr awgryma'r teitl, yn rhoi i ni olwg ddfyr iawn ar yr hen sir Gaernarfon nôl yn nechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dyma a ddywedodd am un adeilad o bwys a welsai ar ei daith trwy'r sir. *'Its state of preservation is such as to allow of its being easily converted into a habitation although the conversion would probably injure its present picturesque appearance.'* Hyd y gwn i, beth bynnag, ddaru neb geisio gwireddu'r syniad a rhoi cynnig ar droi'r adeilad yn gartref, er gwaethaf awgrym Hall mai tasg rwydd iawn fyddai hynny.

Pe byddai rhywrai wedi llwyddo i wneud yr hyn a awgrymai Hall, byddai ganddyn nhw dŷ go arbennig heddiw; tŷ unigryw, heb os. Ond fe gollwyd y cyfle. A diolch am hynny hefyd, gan y byddai addasu'r adeilad wedi gwneud yr hyn a ofnai Hall, sef amharu ar ei edrychiad hardd. Byddai addasiadau diweddarach, fel ffenestri gwydr dwbl, drysau plastig, a disgl lloeren ar y wal yn gwbl anghydnaws â'r lle, ac wedi ei anharddu ymhellach. Weithiau, mae angen diolch am gyfleodd a gollwyd.

Nid bod hynny'n wir o hyd chwaith, oherwydd yn aml iawn mater o ofid mawr yw colli cyfle. Mae gan y rhan fwyaf ohonom brofiad o'r fath: colli cyfle i wneud cymwynas; colli cyfle i ymweld â rhywun; colli cyfle i ddweud

rhywbeth pwysig. Mae meddwl am bethau o'r fath yn gwneud i ni fod yn benderfynol o beidio â cholli cyfleodd tebyg eto. Mor ddoeth yw cyngor Paul i Gristnogion Effesus a Philipi, 'Daliwch ar eich cyfle' (Eff. 5:16 a Col. 4:5). Ie, daliwn ar ein cyfle i wneud daioni, dangos cariad, dweud 'sori', a maddau bai. Mor drist yw gweld y cyfle i wneud pethau felly'n cael ei gollu.

Daliwn ar ein cyfle hefyd i dystio i'r Efengyl. Mynnwn ddweud wrth eraill am Iesu a'r bywyd sydd trwyddo. Gwir dristwch peidio â gwneud hynny fydd, nid ein bod ni ein hunain yn colli cyfle i dystio, ond bod eraill yn colli cyfle i glywed am y Gwardwr y mae arnyn nhw ei angen. Mynnwn dystio dros Grist rhag i ni amddifadu pobl o'r cyfle i glywed amdano ef a'i gariad.

Yr wythnos hon, daliwn ar bob cyfle i wasanaethu Crist a'i deyrnas. Onid un o nodweddion y Cristion yw ei fod yn awyddus i hynny ac yn bryso i wneud daioni o bob math yn ei wasanaeth i'w Arglwydd ac i'w gyd-gristnogion ac i bawb o'i gwmpas?

Gyda llaw, yr adeilad hwnnw y tybiai Hall y gellid ei addasu yn gartref? Mae'n dal yma, mor urddasol ac mor hardd ei *picturesque appearance* ag erioed. A diolch am hynny, lwyddodd neb i'w droi'n dŷ nac yn westy nac yn unrhyw beth arall chwaith. Collwyd cyfle, do; ac mae Castell Dolbadarn yma o hyd.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 a 5.30 o'r gloch gan y Parchg Huw Pritchard. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Croeso cynnes iddo, a diolch am ei wasanaeth eto heddiw.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Bydd aelodau Bethlehem a Charmel yn dod at ei gilydd gydag eglwysi eraill cylch Dosbarth Bangor a Bethesda yng Nghymanfa Ysgolion Sul y Dosbarth a gynhelir yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd. Gweddiwn am gynhalieth ac adferiad i gyfeillion ac aelodau'r eglwysi.

Cymanfa Ysgolion Sul

Estynnwn groeso i bawb i Gymanfa Ysgolion Sul Annibynwyr Dosbarth Bangor a Bethesda yng nghapel Carmel, Llanllechid heddiw. Croeso i aelodau'r eglwysi a phlant ac ieuencid yr ysgolion Sul. Gobeithio bydd pawb yn mwynhau eu hunain, ac y bydd bendith ar y cyfan.

Angladd

Cynhaliwyd gwasanaeth angladd Mrs Janet (Netta) Mackay, 4 Stryd Ceunant, Llanberis yn Capel Coch ddydd Iau, Mai 14 dan arweiniad y Gweinidog. Mrs Bethan Holding oedd yr organydd. Yn dilyn yr oedfa yn y capel cynhaliwyd gwasanaeth yn yr Amlogfa ym Mangor.

Bu farw Mrs Mackay ddydd Gwener, Mai 1 yn Ysbyty Gwynedd, yn 87 mlwydd oed. Cydymdeimlwn â'i chwiorydd, Helen, ym Mhorthmadog (lle cafodd Mrs Mackay ei magu), a Marie, ym Birmingham, a'r holl deulu yn eu colled.

Roedd Mrs Netta Mackay yn gymeriad annwyl dros ben, ac wedi gwneud llawer o ffrindiau yn Llanberis ers iddi ddod yma i fyw gyda'i diweddar wr, Joe, tua 30 o flynyddoedd yn ôl. Roedd yn wraig hwyliog ac wrth ei bodd yn sgwrsio efo hwn a'r llall. Bu'n gymydog da i lawer, ac roedd yn garedig a chymwynasgar. Bu hefyd yn aelod ffyddlon o'r eglwys yn Capel Coch, ac roedd wrth ei bodd yn yr oedfaon ac yn y gweithgareddau eraill a gynhelid yn y capel.

Bu'n wael ers sawl blwyddyn, ond fe lwyddodd i ddal i ddod i'r oedfaon er hynny. Llwyddodd hefyd i aros yn siriol a chynnes ei hysbryd er gwaethaf pob gwendid. Cafodd ofal mawr gan ei chymdogion, ac yr oedd yn ddiolchgar iawn am y gofal hwnnw bob amser. Mae ei ffrindiau yn Llanberis yn rhannu'r teimlad o golled â'i theulu, ac yn diolch am gael ei hadnabod.

Coleg y Bala

Mae saith o blant Ysgol Sul Capel Coch yng Ngholeg y Bala ers nos Wener yn y Penwythnos Plant blynyddol gyda naw o blant Ysgol Sul Capel y Rhos, Llanrug. Diolch yn fawr i Andrew Setttee am fynd yno hefo nhw unwaith eto.

Mae'n siwr y bydd pawb wedi blino erbyn dod adref ar ôl cinio heddiw, ond mi fyddan nhw'n siwr o fod wedi mwynhau eu hunain, fel pob tro arall. Diolch am y cyfleoedd a gaiff y plant ar y cyrsiau hyn i ddysgu am Iesu Grist trwy bob math o weithgareddau hwyliog. Diolch yn fawr i holl staff y Coleg am eu gwaith a'u hymdrech i gyflwyno'r Efengyl mewn ffordd ddeniadol ac enillgar i'r plant a'r ieuencid sy'n mynd yno.

Cymorth Cristnogol

Daeth Wythnos Cymorth Cristnogol i ben neithiwr, a bu llawer ohonoch yn casglu o dy i dy at yr achos hwn unwaith eto. Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n helpu gyda'r casgliad eleni eto.

Yn ystod yr wythnos, clywsom am yr ail ddaeargryn a drawodd Nepal o fewn tair wythnos. Roedd y newyddion hynny'n ein hatgoffa, pe byddai angen gwneud hynny, am yr angen mawr sydd am gymorth i bobl ym mhob rhan o'r byd. Nid bod casgliadau'r Wythnos hon ar gyfer pobl Nepal yn unig, wrth gwrs. Mae Cymorth Cristnogol ac elusennau eraill wedi gwneud eu hapeliadau arbennig am gymorth i bobl Nepal. Bydd yr arian a gasglwyd yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol ar gyfer gwaith arferol yr elusen o estyn cymorth i bobl yng nghanol tloidi ac angen.

Os na chawsoch un o'r amlenni coch trwy'r drws, a'ch bod yn awyddus i roi arian at yr achos, rhowch wybod os gwelwch yn dda i'r Gweinidog, ac fe drefnir i chi gael amlen..

'Dechreuadau'

Cynhaliwyd ail sesiwn 'Dechreuadau' yn Nhalybont ddydd Mercher diwethaf, a chafwyd cyfarfod da arall. Diolch i'r rhai sydd wedi dod i'r ddau gyfarfod cyntaf.

Pwyllgor Bugeiliol Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon sydd wedi trefnu'r gyfres hon dan arweiniad y Parchg Casi Jones, Clynnog, sydd wedi cychwyn gweithio fel Swyddog Cynnal ac Adnoddau Undeb yr Annibynwyr yn y Gogledd.

Bydd 4 sesiwn i drafod 'Pwy ydyn ni fel eglwysi' a 'Lle rydyn ni'n mynd heddiw'. Gwahoddir yr eglwysi i anfon 2 neu 3 aelod i'r cyfarfodydd hyn. Bydd pob sesiwn yn awr o hyd ac yn cynnwys trafod, myfyrio ar ddarnau o'r Beibl, a meddwl am bethau ymarferol y gellir gweithredu arnynt.

Bwriedir i'r aelodau hyn wedyn adrodd am y cyfarfodydd wrth aelodau'r eglwys gan rannu'r syniadau a'r awgrymiadau gyda hwy dan arweiniad y Gweinidog.

Bydd y trydydd cyfarfod ddydd Mercher yr wythnos hon, Mai 20, ym Methlehem Talybont am 2.00 o'r gloch. Bydd y pedwerydd cyfarfod yn yr un lle ddydd Mercher, Mai 27.

Fel dilyniant, bwriedir i Casi ymweld â'r eglwysi unigol ar gyfer dau sesiwn arall, sef Sesiwn 5: Edrych allan i'r gymuned a Sesiwn 6: Creu cynllun i'r eglwys ar gyfer y blynyddoedd nesaf.

CIC

Gan fod nifer o aelodau iau CIC wedi mynd i'r Bala nos Wener, dim ond y criw hyn oedd yn CIC yn Capel Coch nos Wener. Gan fod Andrew hefyd yn Y Bala, roedd y cyfarfod yng ngofal Dafydd a Gwenno a diolch iddynt am eu cefnogaeth.